NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (gwaethygiad acíwt): Rhagnodi gwrthficrobaidd

5 Rhagfyr 2018

## *Fflamychiad clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint difrifol: oes angen gwrthfiotigau arna i?*

Cyflwr yr ysgyfaint yw clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, neu COPD. Bydd pobl sydd â COPD yn brin eu hanadl ac yn aml bydd peswch parhaus arnynt sy'n codi mwcws (fflem).

Mae'n eithaf cyffredin i symptomau COPD waethygu fwy na'r arfer yn sydyn – gelwir hyn yn waethygiad neu'n fflamychiad. Ni fydd gwrthfiotigau bob amser yn helpu gan efallai nad haint bacterol sy'n achosi'r fflamychiad. Ymysg achosion cyffredin eraill mae heintiau feirws, megis annwyd a ffliw, a llygredd aer - ni fydd yr un o'r rhain yn gwella â gwrthfiotigau.

Mae defnyddio gwrthfiotigau pan nad oes eu hangen arnoch yn golygu efallai na fyddant yn gweithio cystal yn y dyfodol. Mae hwn yn risg iechyd ddifrifol.

Os na fydd angen gwrthfiotegau arnoch, dylai eich meddyg esbonio pam a dweud wrthych am beth i'w wneud os na fydd eich symptomau'n gwella ar ôl cyfnod o amser y cytunwyd arno, neu os byddant yn gwaethygu.

Rhagnodir gwrthfiotigau i chi os bydd eu hangen arnoch.

## *Dechrau cymryd gwrthfiotigau*

Os cynigir gwrthfiotigau i chi, dylai eich meddyg esbonio y gallant achosi sgil-effeithiau, megis dolur rhydd a chyfog (teimlo'n sâl).

Dylech fynd i weld eich meddyg os bydd eich symptomau'n gwaethygu neu os byddwch yn teimlo'n sâl iawn ar unrhyw adeg ar ôl i chi ddechrau cymryd eich gwrthfiotigau.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Mae'n bosibl y bydd eich meddyg yn eich atyfeirio at yr ysbyty neu i weld arbenigwr os na fydd eich symptomau'n gwella rhywfaint, neu os bydd arwyddion fod gennych salwch mwy difrifol.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Ceir rhagor o wybodaeth am y canlynol ar wefan y GIG:

- COPD
- gwrthfiotigau.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu gwybodaeth am pam y dylid defnyddio gwrthfiotigau yn gall.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllawiau hyn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holl argymhellion yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3180-4

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights